11 Gorffennaf 2017

At Faer y Dref a Chynghorwyr
Cyngor Tref Rhuthun

Annwyl Aelod
Gofynnir i chi dodd i Gyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** i'w gynnal yn **Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun nos Lun, 17 GORFFENNAF 2017** am **7:00 p.m.** Nodir y busnes i'w drafod yn y cyfarfod yn yr agenda isod.

Yn gywir

Sandra Williams
Sandra Williams
Clerc y Dref

AGENDA

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

2. CYFLWYNIAD AR GYNLLUNIAU BRO
Derbyn cyflwyniad gan Angela Loftus, Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai, Alan Smith, Pennaeth Gwasanaeth – Gwella Busnes a Moderneiddio ac Amy Selby, Swyddog Prosiectau Cymuned, Cyngor Sir Ddinbych.

3. DATGAN BUDDIANNAU
Datgan unrhyw fudd personol neu ariannol yn yr eitemau busnes a restrir isod.

4. ADRODDIAD Y MAER

5. ADRODDIADAU'R AELODAU

6. COFNODION Y PWYLLGOR CYFFREDIN BLAENOROL
Derbyn a chadarnhau bod cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2017 yn gywir.

7. MATERION YN CODI

8. Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2017 (copi gwyrdd).

9. Y PWYLLGOR AMWYNDERAU
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2017 (copi melyn).

10. YR IS-BWYLLGOR CYNLLUN IAITH GYMRAEG

Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2017 (copi pinc) a thrafod a phenderfynu ar yr argymhelliad a gyflwynwyd gan yr Is-bwyllgor.

11. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL

Ystyried cais am gymorth ariannol gan Grŵp Cymuned Rhuthun am £1,000.00 tuag at ddathliadau Nos Calan.

12. DIWEDDARIAD YNGHYLCH YR HEN LYS

Darparu diweddariad gan y gweithgor ynghylch y posibilrwydd o brynu'r Hen Lys fel adeilad dinesig.

13. DIWEDDARIAD YNGHYLCH CYNNIG MAES CHWARAE CAE SEREN

Derbyn diweddariad ynghylch y cynnydd hyd yma o ran yr uchod.

14. DIWEDDARIAD YNGHYLCH RALI GB CYMRU 2017

Derbyn y manylion diweddaraf ynghylch y digwyddiad uchod.

15. TREFNIADAU AR GYFER CYFARFOD Y PWYLLGOR PWERAU BRYS

Cytuno ar ddyddiad ar gyfer y cyfarfod ym mis Awst i ymdrin ag unrhyw faterion cynllunio a chyfrifon i'w talu.

16. GOHEBIAETH

Ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ynghylch y Cod Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig – dosbarthwyd trwy e-bost.

17. DATGANIAD ARIANNOL

Derbyn a chymeradwyo datganiad ariannol y Swyddog Ariannol Cyfrifol am y cyfnod yn diweddu 30 Mehefin 2017.

18. CYFRIFON I'W TALU

Cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn:

5062	Cymdeithas Efeillio Rhuthun	Cymorth ariannol		£500.00
D.D.	BT Business	Gwasanaethau ffôn	*	£99.31
5063	SLCC Enterprises Ltd	Cynhadledd ar y cyd SLCC/Unllais Cymru	*	£165.60
5064	Llanfwrog CIC	Torri glaswellt – Gorffennaf 2017		£342.00
5065	Sandra Williams	Ffi Danfoniad Arbennig - BDO		£8.55
5066	Fineline	Papur, cerdyn ac amlenni	*	£38.01
S.O.	Canda Copying Ltd	Rhentu'r llungopïwr a chopïau isafswm	*	£129.14
5067	Canda Copying Ltd	Copïau du a gwyn ychwanegol	*	£31.04
5068	Canda Copying Ltd	Copïau lliw ychwanegol	*	£37.16
5069	Vale Country Club	Cinio Sul Dinesig		£1,974.00
5070	HMRC	Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol	*	£274.90
5071	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd	*	£90.00

(Mae'r eitemau wedi'u dynodi gyda * uchod yn cynnwys TAW adferadwy o £98.37)

19. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, **25 Medi 2017** am 7.00pm.